

Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

HSS (2) - 02-06(p.9)

Dyddiad: Dydd Mercher 1 Chwefror 2006

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Teitl: Hynt y gwaith o weithredu Fformiwla Townsend

Diben

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am fanylion y Grwp Arbenigol a sefydlwyd i adolygu'r fformiwla anghenion uniongyrchol (fformiwla Townsend), a hynt y gwaith o weithredu'r fformiwla.

Argymhelliad

2. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

Cefndir

3. Roedd adroddiad yr Athro Townsend yn 2001, "Targeddu Iechyd Gwael", yn argymhell defnyddio fformiwla anghenion uniongyrchol ar gyfer dyrannu adnoddau'r GIG i ardaloedd gwahanol fyrddau iechyd lleol. Mabwysiadodd y Cynulliad yr argymhelliad hwn yn 2002. Dechreuwyd gweithredu'r fformiwla yn 2003, ac fe'i defnyddiwyd ers hynny i lywio'r dyraniadau refeniw blynyddol i fyrddau iechyd lleol.

4. Ar hyn o bryd, caiff y fformiwla ei defnyddio ar gyfer llywio dyraniadau refeniw Gwasanaethau Iechyd Ysbytai a'r Gymuned (HCHS) sy'n cynnwys gwasanaethau a ddarperir gan ymddiriedolaethau'r GIG. Roedd adroddiad cyntaf yr Athro Townsend hefyd yn cynnig fformiwlâu dyrannu dangosol ar gyfer gwariant ar ragnodi mewn gofal sylfaenol ac ar gyfer gwariant ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS). Serch hynny, ar adeg yr adroddiad cyntaf, nid oedd y gwariant hwn yn rhan o ddyraniadau arian parod yn unig yr hen awdurdodau iechyd. Roedd yr adroddiad yn argymhell bod angen rhagor o waith cyn y gellid defnyddio fformiwlâu anghenion uniongyrchol yn y meysydd hyn.

5. Mae'r fformiwla HCHS yn defnyddio data ar anghenion iechyd a chost diwallu'r anghenion hynny er mwyn cyfrifo dyraniadau targed ar gyfer ardal pob bwrdd iechyd lleol. Caiff y fformiwla ei chyfrifo ar sail ddaearyddol, ac nid yw'n gwahaniaethu rhwng anghenion iechyd arbenigol y boblogaeth leol (sef cyfrifoldeb comisiynu Comisiwn Iechyd Cymru) ac anghenion iechyd eraill (sef cyfrifoldeb comisiynu'r bwrdd iechyd lleol). Mae'r rhan fwyaf o'r data ar anghenion iechyd wedi ei gymryd o Arolwg Iechyd Cymru, gyda pheth data ychwanegol o ffynonellau data am gyflyrrau penodol, er enghraifft y gofrestrfa

ganser a chofrestriadau anabledd dysgu. Caiff y gost o ddiwallu anghenion iechyd ei gyfrifo o wybodaeth am gostau blynyddol Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru.

6. Gellir mesur hynt y gwaith o weithredu'r fformiwla yn ôl y graddau y mae dyraniad gwirioneddol ardal bwrdd iechyd lleol yn agosáu at ei ddyraniad targed. Mae'r gwahaniaeth rhwng y dyraniadau gwirioneddol a'r dyraniadau targed yn cael ei alw yn "bellter o'r targed", ac fel arfer caiff ei ddangos fel canran.

7. Mae'r dyraniad gwirioneddol ar gyfer ardal bwrdd iechyd lleol yn cynnwys y dyraniad refeniw HCHS yn ôl disgrisiwn i'r bwrdd iechyd lleol, ynghyd â chyfran yr ardal o ddyraniad refeniw Comisiwn Iechyd Cymru. Mae hyn yn rhoi dyraniad HCHS sydd wedi'i gyfrifo ar sail ddaearyddol.

8. Sefydlodd y Cynulliad Bwyllgor Sefydlog yn 2002, dan gadeiryddiaeth yr Athro Townsend, i gynghori'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y modd yr oedd y fformiwla anghenion uniongyrchol yn cael ei weithredu. Disgrifiwyd gwaith y Pwyllgor Sefydlog yn adroddiad terfynol yr Athro Townsend, "Anghydraddoldebau Iechyd: Y Dimensiwn Cymreig 2002-2005", a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2005. Roedd yr adroddiad yn cydnabod y bydd angen mireinio'r fformiwla'n barhaus, ac yr oedd yn cynnig sefydlu Grwp Arbenigol a fyddai'n adrodd i Bennaeth yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Aelodaeth a Threfniadau Gweithio'r Grwp Arbenigol

9. Cymeradwyais sefydlu'r Grwp Arbenigol ym mis Hydref, a fyddai'n cael ei gadeirio gan Brif Ystadegydd Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae gan y Grwp aelodaeth graidd o gynghorwyr yn cynnwys y swyddogion canlynol o Lywodraeth Cynulliad Cymru:

- Cyfarwyddwr Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Prif Swyddog Meddygol
- Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol
- Prif Gynghorydd Economaidd
- Pennaeth yr Is-adran Gwasanaethau Gwybodaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Pennaeth yr Is-adran Cyllid Llywodraeth Leol

ynghyd â Chyfarwyddwr Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru. Mae'r Grwp hefyd yn cynnwys aelodau sy'n arsylwi ar ran Ymddiriedolaethau'r GIG, byrddau iechyd lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

10. Bob blwyddyn, bydd y Grwp yn comisiynu gwaith yn y meysydd hynny o'r fformiwla y maent yn ystyried sydd angen eu hadolygu. Bydd y Grwp yn cyflwyno argymhellion ynghylch unrhyw ddiwygiadau i'r fformiwla i Bennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Bydd hynny'n llywio'r dyraniadau refeniw y flwyddyn ganlynol.

11. Cynhaliodd y Grwp ei gyfarfod cychwynnol ym mis Tachwedd 2005. Yn ogystal â chytuno ar ei gylch gorchwyl ac ystyried blaenraglen waith amlinellol, derbyniodd y Grwp bapurau ar y materion canlynol:

- Cyflwyno fformiwla ar sail anghenion uniongyrchol ar gyfer y dyraniad ar gyfer rhagnodi mewn gofal sylfaenol
- Effaith cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl ar y fformiwla anghenion uniongyrchol
- Effaith data Arolwg Iechyd Cymru 2003-04 ar y fformiwla.

12. Daeth y Grwp i'r casgliad fod angen rhagor o waith cyn y gellid ymestyn y fformiwla anghenion uniongyrchol i'r dyraniadau rhagnodi, a chyn y gellid ei addasu i adewyrchu effaith cartefi nyrsio a chartrefi preswyl. Argymhellodd beidio â chymryd unrhyw gamau o ran y ddau fater hyn ar gyfer dyraniadau 2006-07 i'r byrddau iechyd lleol. Bu'r Grwp yn ystyried data newydd Arolwg Iechyd Cymru, a daeth i'r casgliad ei fod yn adlewyrchu statws iechyd y boblogaeth yn fwy cywir nag Arolwg 1998, sef y sail bresennol ar gyfer y dyraniadau targed o ran anghenion uniongyrchol. Serch hynny, mae'r Arolwg yn sensitif iawn ar lefel y bwrdd iechyd lleol, ac rwyf wedi gofyn iddo gael ei ailddilysu fel sail ar gyfer dyrannu adnoddau, cyn bod y dyraniadau anghenion uniongyrchol yn cael eu diweddarau. Bydd yn diweddarau'r ymarfer a wnaed gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym 2001 a oedd yn dilysu Arolwg Iechyd Cymru 1998 fel sail i ddyrannu adnoddau newydd ar lefel bwrdd iechyd lleol fel rhan o adolygiad gwreiddiol yr Athro Townsend. Rwy'n disgwyl i'r ymarfer newydd gychwyn cyn bo hir ac y bydd yn cael ei gwblhau yn ystod y gwanwyn.

Hynt y gwaith o weithredu'r fformiwla anghenion uniongyrchol HCCHS

13. Mae'r fformiwla anghenion uniongyrchol yn cyfrifo'r dyraniadau targed ar gyfer ardaloedd y byrddau iechyd lleol fel cyfran o lefel a bennwyd ymlaen llaw o gyllid y GIG. Dim ond dangos a ydyw'r ardal honno yn cael mwy neu lai o gyllid mewn perthynas â sefyllfa ardaloedd eraill y mae pellter ardal bwrdd iechyd lleol o'i darged.

14. Yn awtomatig, bydd defnyddio cyllid i fwrw ati i weithredu'r fformiwla mewn meysydd y mae'r dyraniadau gwirioneddol yn is na'u dyraniadau targed yn effeithio ar bellter yr holl feysydd eraill o'u targedau hwythau. Rhaid ei ddefnyddio'n ofalus er mwyn sicrhau nad yw sefyllfaoedd perthynol meysydd eraill yn dirywio'n sylweddol yn sgîl hynny.

15. Mae dyraniadau gwirioneddol ardaloedd y byrddau iechyd lleol wedi newid ers 2003-04 o ganlyniad i'r modd y mae cyllid newydd (er enghraifft cyllid ar gyfer cynnydd mewn chwyddiant, taliadau cyfalaf a chynnydd mewn costau pensiwn) wedi cael eu dosbarthu yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r dyraniadau targed hefyd wedi'u diweddarau yn ystod y cyfnod hwn ar sail data ar gostau ymddiriedolaethau'r GIG ac ar sail data ar anghenion iechyd sy'n deillio o ffynonellau data nad ydynt yn gysylltiedig ag Arolwg Iechyd Cymru. Bydd y gweithgarwch hwn yn effeithio ar bellter ardaloedd y byrddau iechyd lleol o'r targed, heb sôn am unrhyw gamau penodol sydd wedi'u cymryd i fwrw ati â'r gwaith o weithredu'r fformiwla.

16. Dyma'r camau sydd wedi'u targedu i fwrw ati â'r gwaith o weithredu'r fformiwla:

- £11.1 miliwn yn 2003-04 i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd
- £30 miliwn yn 2004-05 er mwyn bwrw ati ag agenda ddiwygio Wanless
- Ailddosbarthiad bychan o adnoddau yn 2005-06 rhwng y tri bwrdd iechyd lleol sydd fwyaf dros eu targedau i'r pedwar bwrdd sydd fwyaf o dan eu targedau.

17. Yn Atodiad 1, ceir manylion y newidiadau ym mhellteroedd ardaloedd y byrddau iechyd lleol o'u targedau, o ganlyniad i'r ffactorau uchod. Mae'n dangos bod 17 o'r 22 ardal wedi agosáu at eu dyraniadau targed yn ystod y cyfnod. Mae ystod y pellterau o'r targed wedi'u lleihau o 35 y cant (rhwng 18.8% o dan y targed i 16.2% dros y targed) yn 2003-04 i 25.4 y cant (rhwng 9.6% o dan y targed i 15.8% dros y targed) yn 2005-06.

Themâu Trawsbynciol

18. Diben fformiwla Townsend yw lleihau anghydraddoldebau iechyd trwy dargedu cyllid gofal iechyd at yr ardaloedd hynny sydd â'r anghenion mwyaf. Ceir tystiolaeth gref o gysylltiad rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac iechyd gwael. Oherwydd hynny, dylai targedu cyllid gofal iechyd at yr ardaloedd sydd â'r anghenion mwyaf o ran iechyd hefyd fod o fudd i'r ardaloedd hynny sydd â lefelau uwch o amddifadedd.

Goblygiadau Ariannol

19. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r papur hwn. Ceir goblygiadau ariannol sy'n gysylltiedig â bwrw ati i weithredu'r fformiwla anghenion uniongyrchol, a chaiff y rhain eu hystyried yn flynyddol trwy gyfrwng Rownd Cynllunio'r Gyllideb.

Camau i'w cymryd

20. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

Brian Gibbons

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Swyddog Cyswllt:

Dr Chris Daws, Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau, 3137

Atodiad 1

Pellteroedd y Byrddau Iechyd Lleol o'u Targedau

Cymhariaeth o sefyllfa 2003-04 â sefyllfa 2005-06

	Pellter o'r Targed yn 2003-04	Pellter o'r Targed yn 2005-06	Agosáu at y targed / pellhau oddi wrtho
Bwrdd Iechyd Lleol	%	%	
Caerffili	(13.4)	(9.6)	Agosáu
Blaenau Gwent	(4.4)	(1.5)	Agosáu
Tor-faen	(18.8)	(9.1)	Agosáu
Sir Fynwy	14.4	10.7	Agosáu
Casnewydd	(4.1)	(3.9)	Agosáu
Bro Morgannwg	9.3	(1.5)	Agosáu
Rhondda Cynon Taf	(0.1)	3.1	Pellhau
Merthyr Tudful	(3.8)	(2.2)	Agosáu
Caerdydd	0.0	(3.2)	Pellhau
Powys	9.2	2.3	Agosáu
Ceredigion	10.3	6.8	Agosáu
Sir Benfro	4.2	3.3	Agosáu
Sir Gaerfyrddin	(9.9)	(6.9)	Agosáu
Abertawe	(6.3)	(0.4)	Agosáu
Castell-nedd Port Talbot	(5.0)	(1.5)	Agosáu
Pen-y-bont ar Ogwr	0.5	7.3	Pellhau
Ynys Môn	4.7	1.6	Agosáu
Gwynedd	13.3	15.8	Pellhau
Conwy	2.4	0.1	Agosáu
Sir Ddinbych	16.2	14.8	Agosáu

Sir y Fflint	(5.7)	(6.2)	Pellhau
Wrecsam	4.7	1.9	Agosáu

Nodiadau

- a) Mae'r colofnau yn dangos y gwahaniaeth ariannol rhwng y dyraniadau gwirioneddol a'r dyraniadau targed, wedi'i fynegi fel canran o'r dyraniad targed.
- b) Mae cromfachau yn dynodi bod y dyraniadau gwirioneddol yn is na'r dyraniadau targed.